

Dau gyfrifiad – un her

Rydym yn hen gyfarwydd â'r dywediad sy'n sôn am 'gelwyddau, celwyddau ofnadwy ac ystadegau', sy'n cael ei dadogi i Benjamin Disraeli (er nad oes tystiolaeth bendant chwaith mai ef a'i lluniodd).

Cyhoeddwyd yn wythnos gyntaf yr Adfent ganlyniadau Cyfrifiad 2021. Dangosodd fod nifer y rhai a lenwodd y cyfrifiad y llynedd, ac a atebodd y cwestiwn oedd yn holi am grefydd yn gadarnhaol, wedi gostwng ers 2011. Dangoswyd bod y ganran yn llai yng Nghymru (43%) nag yn Lloegr (54%). Dywedir mai ardaloedd Caerffili a Blaenau Gwent sydd â'r ganran isaf yng Nghymru (36%).

Mae'n siŵr fod modd dehongli'r ffeithiau hyn mewn pob math o ffyrdd ac nad oes modd gwybod beth yw dealltwriaeth pobl o'u crebwyll am fod yn 'Gristnogol'. I rai, diwylliant yw Cristnogaeth, cefndir ein magwraeth. Byddai goblygiadau hyn yn medru bod yn rhai cymdeithasol, yn foesol, yn onest neu'n bethau daionus. Mae gan bobl o bob cefndir nodweddion sydd yn foesol dda ac nid ydynt yn nodweddion sy'n perthyn i'r rhai sy'n aelodau eglwysig yn unig. Mewn byd sy'n gyfarwydd â chreulondeb a thrais, mae'n bwysig nodi bod pobl dda a theg ym mhob diwylliant.

Yn ystod fy mh Bentleyndod, roedd y mwyafrif helaeth o drigolion bro fy mebyd yn aelodau mewn rhyw eglwys neu'i gilydd. Mae'n wir dweud nad oedd pawb yn mynychu'n rheolaidd, ond roedd gan nifer sylweddol o deuluoedd 'nod clust' eglwysig yn eu hunaniaeth. Er bod y defaid yn medru crwydro neu fynd ar goll, yr argraff sydd gennyf yw mai lleiafrif o'r boblogaeth leol oedd yn mynychu eu diadelloedd yn rheolaidd.

Mae'n siŵr fod llawer o'r rhai oedd yn rhieni ifanc ym mhunedgau'r ganrif ddiwethaf wedi ffarwelio â'r fuchedd hon ers 2011. Ac mae'n debygol fod rhieni ifanc 2021 yn llai tebygol o arddel aelodaeth o eglwysi, gan fod cymaint mwy o gyfleoedd teithio, heriau cymdeithasol, hwylustod teithio a darpariaeth ddigidol i'r rhai sydd am 'grefydd' neu ymddiddori ym mhethau ffydd. Mae'n oes wahanol, ac nid yw cymdeithas yn gyffredinol yn gosod unrhyw ddisgwyliadau penodol ar unigolion na theuluoedd.

Nodir yn adroddiadau'r cyfrifiad fod nifer y rhai sy'n arddel crefyddau eraill wedi codi, heb ofyn beth yw patrwm mewnlyfiad pobl ethnig i unrhyw gymuned yn benodol. Ni fynnwn amau didwylledd unrhyw lddew neu Fwslim, ond mae nominaliaeth yn nodwedd o'r rhai a fagwyd yn y crefyddau hynny hefyd.



Gwelsom nifer o achosion yn cyfuno neu'n cau dros y degawd diwethaf, a hynny ar draws yr enwadau Cristnogol. Ond bydd llawer mwy yn cydnabod ac yn dathlu eu diwylliant Cristnogol na fydd yn mynychu oedfaon nac yn cyfrannu i fywyd y cynulliadau Cristnogol. Dros gyfnod yr Adfent bydd llawer wedi canu carol Gristnogol neu wedi goleuo kannwyll, heb ddeall pam o reidrwydd.

Dylai cenhadu mewn cymunedau sy'n lled gyfarwydd ag elfennau o'r ffydd Gristnogol fod yn llawer haws na thystio mewn cymuned baganaidd neu ddigrefydd. Ai dathliad Cristnogol yw'r Nadolig i'r rhelyw, neu draddodiad nad oes iddo sylfaen ysbrydol sy'n fynegiant o gariad Duw yn Iesu?

Dathlwn y Nadolig eleni drwy sôn am rodd Duw i'r byd, y goleuni sy'n drech na'r tywyllwch a'r gwahoddiad i weld Iesu'r plentyn a oedd yn Waredwr byd. Cyfrifiad Rhufain fynnodd fod Joseff yn teithio i Fethlehem; cyfrifiad 2021 sy'n ein galw i roi cenhadaeth eglwysig yn flaenoriaeth ein gweithgarwch!

Denzil John

Ceir crynodeb o'r dadansoddiad ystadegol yn <https://static.ons.gov.uk/files/religion-england-and-wales-census-2021-welsh-full-bulletin.pdf>.

Rhoi Gwynt yn Hwyliau'r Plygain

Mewn sawl rhan o Gymru bellach mae cryn edrych ymlaen at y gwasanaeth plygain blynyddol. Eleni, cyhoeddwyd casgliad newydd o hen garolau, *Seiniwn Hosanna*, o dan olygyddiaeth Arfon Gwilym a Sioned Webb. Ar ôl bwlch o bron i dair blynedd oherwydd y pandemig, y nod yw rhoi hwb o'r newydd i'r hen draddodiad hwn.

'Mae'r plygain wedi chwarae rhan bwysig yn hanes y diwylliant Cymraeg, a hanes y ffydd Gristnogol yn benodol,' meddai Arfon. 'Parchu'r hanes hwnnw ydi nod y plygain. Mae carolau newydd a chyfoes yn cael eu cyfansoddi drwy'r amser, wrth gwrs, ond y plygain ydi'r unig gyfle i ganu ac i glywed y carolau traddodiadol – cynnyrch cenedlaethau o feirdd a cherddorion dros amser maith.'

Aeth dros bymtheng mlynedd ers i Arfon a Sioned gyhoeddi *Hen Garolau Cymru*, ac fe werthwyd y copïau i gyd.

'Roedd hi'n amlwg i mi fod y diddordeb ar gynydd, ym mhob rhan o Gymru a'r tu hwnt. Efo'r gyfrol bresennol, mi wnaethon ni gynnwys rhyw hanner dwsin o "ffefrynnau", ond mi wnaethon ni ymdrech fwriadol i chwilio am y carolau hynaf y gallen ni eu canfod – y rhai oedd yn cael eu gosod ar wahanol fesurau fel *Difyrrwch Gwŷr y Gogledd*, *Dydd Llun y Bore*, *Ehediad y Golomen a Ffarwel Ned Puw*. Bu'n rhaid didoli yn reit ofalus, a gadael i amryw ohonyn nhw syrthio drwy'r rhwyd os oedd y geiriau neu'r gerddoriaeth yn annhebyg o apelio yn yr oes bresennol.'


Ymhlith awduron y carolau mae Dafydd Ddu Eryri, Twm o'r Nant a Robert Davies, Bardd Nantglyn, o'r 18fed ganrif; Ellis Wynne o'r Lasynys a Huw Morys, Eos Ceiriog, o'r 17eg ganrif; Rhys Prichard (y Ficer Prichard) o'r 16eg ganrif, a Madog ap Gwallter o'r 13eg ganrif.

Yn wahanol i gasgliadau blaenorol, mae'r gyfrol yn cynnwys adran ychwanegol yn adrodd hanes y carolwyr eu hunain, yn gantorion yn ogystal â chyfansoddwyr y carolau.

'Y man cychwyn amlwg i mi oedd yr holl garolwyr hynny y cefais i'r fraint o'u hadnabod yn Sir Drefaldwyn pan es i yno i fyw yn y 70au. Ro'n i'n awyddus iawn i gydnabod eu cyfraniad. Teimlwn fod yn rhaid i rywun gofnodi eu hanes, cyn i'w henwau fynd yn angof. Ond fe ehangodd yr adran wedyn i gynnwys braslun o hanes y plygain yng ngweddill Cymru hefyd.'

Meddai Sioned: 'Fy ngwaith i oedd rhoi trefn ar y gerddoriaeth, ac ro'n i'n ymwybodol iawn o'm cyfrifoldeb. Dim ond yn yr ugain mlynedd dwythfa dwi wedi dod yn gyfarwydd efo'r traddodiad, ond ers hynny dwi wedi canu'n gyson mewn plygeinie, felly dwi wedi dod i nabod yr ochr gerddorol yn reit dda, ac yn sylweddoli fod yn rhaid trin y carolau efo parch.'

'Efo'r carolau yn y gyfrol yma, weithiau dim ond y geiriau ac enw'r mesur oedd gen i, dro arall un llinell o alaw, ac roedd yn rhaid cyfansoddi'r harmonïau. Dro arall roedd o'n fater o olygu'r trefniannau oedd eisoes yn bod, eu cywiro, a'u gosod



mewn cyweirnod call! Ac er bod hwn yn waith manwl, roedd yn bleser ac yn fraint.'

Er mwyn cyhoeddi'r gyfrol hon cafwyd cefnogaeth ariannol Cymrodoriaeth Eisteddfod Powys ('Cronfa Llanbryn-mair'). Golygodd hynny fod modd cyhoeddi'r gyfrol yn breifat. Y bwriad yw defnyddio unrhyw elw tuag at sefydlu gwefan newydd www.plygain.org, sy'n cynnwys dyddiadur o'r gwasanaethau mewn gwahanol rannau o'r wlad, yn ogystal â chefnidir a hanes y traddodiad.

Un o'r pethau mwyaf rhyfeddol ynglŷn â'r plygain yw'r ffordd y mae'r arferiad wedi lledu i gymaint o wahanol ardaloedd yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf. Ar ddechrau'r 70au, rhywbeth yn perthyn i'r canolbarth yn unig oedd hwn (ac eithrio ambell wasanaeth unigol mewn llefydd fel Lloc yn Sir Fflint a Llanllyfni yn Nyffryn Nantlle), ac ychydig iawn o sôn oedd amdano y tu allan i'r ardaloedd penodol hynny. Ond bellach mae mwy o wasanaethau yn cael eu cynnal y tu allan i'r hen gadarnle nag o'i fewn. Cyn cychwyn y tymor plygain eleni yr oedd dros 40 o wasanaethau wedi eu cadarnhau, mewn llefydd mor amrywiol â Llanwnda, Nantgaredig, Gorseinon, y Fenni, Caerdydd, a hyd yn oed Llundain.

Ar ol hirlwm y Covid, y gobaith dros gyfnod Nadolig 2022 yw y bydd modd ailgynnau'r brwdfrydedd a welwyd ym myd y blygain cyn y Clo Mawr.

Gwledd Ddiolchgarwch Americanaidd

'Roedden nhw'n dal ati i gyfarfod bob dydd ... yn bwyta ac yn torri bara yn nhai ei gilydd, yn llawen a hael. Roedden nhw'n moli Duw, ac roedd agwedd pobl tuag atyn nhw yn bositif iawn. Roedd mwy a mwy o bobl ym ymuno â nhw, ac yn cael eu hachub gan Dduw, bob dydd.' (Actau 2:46-7)

Pan ddaeth dilynwyr cynharaf Iesu at ei gilydd, fe rannon nhw eu bywydau dros bryd o fwyd. Roedd yn arferiad canolog yn eu ffydd oherwydd eu bod yn deall bod hynny'n adlewyrchu bywyd eu Harglwydd, oedd yn rhannu prydau gyda phob math o bobl. 'Daeth Mab y Dyn yn bwyta ac yfed,' meddai'r Beibl wrth ddisgrifio bywyd Iesu Grist. Mae pryd o fwyd yn gyfle inni rannu ym mywyd Duw'r Drindod os yw'n cael ei rannu mewn ffydd. Mae'n foddion gras, yn enwedig pan fydd bara a gwin yn cael eu cynnwys.

Rwy'n credu ein bod ni mewn cyfnod yng Nghymru lle mae angen inni ailddarganfod symlrwydd ein ffydd a'i harferion cyffredin, fel rhannu pryd o fwyd, clywed Gair Duw mewn cymuned, a gweddïo dros ein gilydd. Mae'n ddwfn o fewn ein gwreiddiau Methodistiaidd.

Ar nos Sul bythefnos yn ôl, roedd tua deg ar hugain o bobl wedi ymuno â ni yn festri capel Bethesda, yr Wyddgrug, lle buom yn rhannu gwledd o fwyd diolchgarwch Americanaidd traddodiadol. Roedd yn fwiadol anffurfiol. Fe wnaethon ni ganu cwpl o ganeuon, gweddïo gyda'n gilydd, a thrafod Gair Duw wrth i ni fwyta bwyd. Roedd yn eithaf syml, ond roedd yn rhoi bywyd. Roedd Duw yn wirioneddol bresennol gyda ni ac fe'n bendithiodd. Rydym yn edrych ymlaen at wneud hyn yn amlach.

Corey Hampton
Ysgogydd Cenhadol yn Sir Fflint



Cyswllt rhwng RAF, y Fali, a BAE Systems â bomio yn Yemen



Ddydd Gwener, 2 Rhagfyr, am 3 o'r gloch, daeth aelodau [Cymdeithas y Cymod](#) ac eraill yn y mudiad heddwch ynghyd yn RAF y Fali i dynnu sylw at BAE Systems ac allforio arfau i Saudi Arabia. Roedd hynny'n nodi dechrau ymgyrch deufis i hysbysu dinasyddion Cymru o'r rhyfeloedd byd-eang sy'n cychwyn ar stepen ein drws gyda'r cyflenwad o arfau a systemau o'r Deyrnas Gyfunol ar gyfer y rhyfel yn Yemen.

Mae'r Gymdeithas yn cefnogi'r Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau ([CAAT](#)) yn ei achos cyfreithiol i herio llywodraeth y Deyrnas Gyfunol am roi trwyddedau allforio i Saudi Arabia.

Yn ôl yr ymchwil a gynhaliwyd gan yr Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau, mae nifer o safleoedd yng Nghymru'n cynhyrchu arfau a systemau sy'n cael eu defnyddio i fomio Yemen. Mae'r rhain yn cynnwys BAE Systems yn RAF, y Fali, ac yn Glascoed, Brynbuga; Raytheon sydd wedi ei leoli ym Mrychdyn; FAUN Trackway yn Llangefni, ac Airbus yng Nghoedcernyw, Casnewydd.

Mae cysylltiad BAE yn mynd tu hwnt i gyflenwi cyfarpar: mae gan BAE 6,500 o staff yn Saudi Arabia sy'n cefnogi gallu gweithredol lluoedd arfog Saudi, hynny yw, yr ymosodiadau ar Yemen.

Aeth yr ymgyrchydd Arabaidd Ameen Nemer i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol BAE yn 2019. Adroddodd: 'I bobl yn Saudi Arabia a Yemen, mae'n amhosibl gwahaniaethu rhwng y bobl sy'n gwerthu'r arfau a'r rhai sy'n eu defnyddio.'

Yn ôl Awel Irene, cydlynnydd Cymdeithas y Cymod, 'Ein nod yn y mudiad heddwch yw fod Cymru yn genedl heddwch, lle mae symudiad oddi wrth filitariaeth at economi sy'n cael ei yrru gan ynni adnewyddol a diwylliant wedi ei adeiladu ar werthoedd di-drais.'

Mae'r Gymdeithas yn apelio ar aelodau eglwysi Cymru i ymuno â ni. Mae angen pobl i wneud gwaith ymchwil, cyfieithu, rhannu'r neges gyda chyfeillion, ysgrifennu at eu cynrychiolwyr gwleidyddol a'u canghennau undeb llafur a chyfrannu'n ariannol.

Am fwy o fanylion, cysylltwch ag Awel Irene, 10 Garreg Frech, Llanfrothen, Gwynedd, LL48 6BZ neu ar ebost: awel.heddwch@gmail.com neu ar y ffôn : 01766 772788

Profi o'r newydd rin geiriau ddoe



Encil y Weinidogaeth Iacháu yng Nghapel Trefnant

Hyfryd oedd ymgynnull am y tro cyntaf ers dwy flynedd ddydd Sadwrn, 15 Hydref, yng Nghapel Trefnant, ger Dinbych, ar gyfer Encil y Weinidogaeth Iacháu. Cawsom groeso twymgalon a phaned gan chwiorydd y capel cyn i'r Llywydd, Arthur Rowlands, ein tywys i'r capel a'n croesawu'n ffurfiol.

Rhiannon Wynne gyflwynodd y defosiwn, ac roedd y tynerwch a'r cadernid a nodweddai ei gwaith fel cyn-nyrs yn ei thraddodi a'i dewis o emynau, a osododd y naws cywir i'r encil.

Arweiniwyd yr astudiaeth Feiblaidd gan Dilys Hughes, a bwysleisiodd werth emynau a salmau cân i'n nerthu a'n noddi ar adegau anodd gan ganolbwyntio ar Salm 46, sy'n gorlifo â delweddau trawiadol. Cawsom gyfle i gyfrannu ein hoff emyn, a chyffwrdd ar Salm 23, sy'n gyforiog o gysur a llesâd.

Cyn toriad am ginio, cafwyd pwyllgor byr pan etholwyd y Parch. Nesta Davies yn olynydd i Hafwen Davies fel Ysgrifennydd, a diolchwyd iddi am ei gwaith mewn cyfnod anodd.

Arweiniwyd ein cyfnod 'Gweddi ac Eiriolaeth' yn gelfydd gan y profiadol Barch. Trefor Lewis. Cynorthwywyd Trefor gan Marian Jones, Cyn-ysgrifennydd y Weinidogaeth Iacháu. Cafwyd cyfle i bawb gael gweddi bersonol neu ddod ag unrhyw berson neu sefydliad gerbron ein Harglwydd tra oedd gweddill y gynulleidfa'n cael cyfnod tawel i fyfyrion a gweddio eu hunain. Gwyddom mor hanfodol ydi i bob un ohonom gael cyfnod fel hyn yn ddyddiol, ond mae cael amser tawel ar y cyd â chyfeillion hen a newydd yn amheuthun ac yn arbennig iawn.

Roedd y Parch. Ddr Andras Iago wedi ymuno â'r cwmni er mwyn ein harwain at Fwrdd yr Arglwydd. Cafwyd gwasanaeth gwahanol iawn gan Andras gan ddefnyddio dau lyfr a oedd wedi eu prynu yn ddiweddar, sef *The Apostle's Creed for All God's Children* gan Ben Myers a *The Apostle's Creed: a guide to the Ancient*

Catechism. Tywyswyd ni at y bwrdd a chawsom wledd i'w chofio. Clo arbennig i ddiwrnod arbennig yng Nghapel Trefnant yng nghwmni chwiorydd arbennig y capel. Diolchwyd yn gynnes iawn i bawb am ddiwrnod bendithiol a chofiadwy gan ein Llywydd, Arthur Rowlands.

Nesta M. Davies



Cydganu emyn yn yr Encil

Naw Llith *Gogoniant yn y goruchaf i Dduw,*
a Charol *ac ar y ddaear langnefedd,*
i ddynion enyfllys da

Eglwys Cymraeg Ynghyd yn Llundain

11.12.22 am 6yh
Croeso cynnes i bawb

Canolfan Cymry Llundain
 Grays Inn Road
 WC1X 8UE

Gwahoddiad i ddathlu

Un o'r pethau gorau am dymor y Nadolig yw canu carolau! Yng nghanol yr holl fasnachu sydd bellach yn amgylchynu'r Nadolig mae'r carolau'n helpu i ddod â ni yn ôl at y gwirioneddau rydyn ni fel Cristnogion yn eu dathlu. Pan mae ein plant yn canu 'Mae Siôn Corn yn dod i'r dref', rydyn ni'n canu 'Daeth Crist i'n plith'. Pan mae hysbysebion teledu yn ein hannog i brynu'r 'rhodd berffaith', molwn Dduw am rodd annisgrifiadwy ei Fab ei hun. Pan fydd gan archfarchnadoedd fyrdd o gynigion arbennig a fydd yn gwneud ein Nadolig y gorau erioed, diolchwn i Dduw mai'r newyddion gorau yw 'Ganwyd Crist ym Methlehem'.

Mae'n debyg y byddwch yn mynychu mwynag un gwasanaeth carolau eleni, ond hoffai Pwyllgor y Chwirydd (EBC) eich gwahodd i ymuno â ni ar gyfer Gwasanaeth Carolau ar Zoom ar 12 Rhagfyr am 7yh.

Rydyn ni wedi cynnal gwasanaeth ar Zoom yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac wedi cael amser bendigedig. Felly, byddem wrth ein bodd pe baech yn ymuno â ni. Cysylltwch ag Eirian Roberts am y ddolen Zoom: eirian.roberts@ebcpcw.cymru



Carolau@zoom

**Mae Is-bwyllgor y Chwirydd
yn estyn gwahoddiad i
Wasanaeth Carolau Rhithiol
Nos Lun Rhagfyr 12fed
am 7 o'r gloch.**

Cysylltwch gyda
eirian.roberts@ebcpcw.cymru am y linc

Gwynos Heddwch – Cymorth Cristnogol



actalliance

Ers mis Ionawr 2021 mae cefnogwyr Cymorth Cristnogol wedi bod yn dod at ei gilydd bob mis ar Zoom i gynnal Gwynos Heddwch. Cofrestrwyd yr wynnos gydag [ACT Alliance](#), sy'n cynnwys dros gant o eglwysi a mudiadau Cristnogol sy'n gweithio tuag greu cymuned fyd-eang lle mae pawb o fewn creadigaeth Duw yn byw ag urddas, cyfiawnder, heddwch a pharch tuag at hawliau dynol a'r amgylchfyd.

Rydym yn un o nifer fawr o ardaloedd ledled Prydain sydd wedi cofrestru i gynnal gwynnos bob mis, ac yn falch iawn ein bod wedi medru cynnal gwynnos yn ddi-dor bob mis ers Ionawr 2021.

Mae'r cyfarfodydd hanner awr wedi bod yn amrywiol iawn: yn cynnwys adolygiadau llyfrau, profiadau personol o ymweld ag Israel a Phalesteina, cyfnodau o weddi a rhannu gwybodaeth am waith partneriaid Cymorth Cristnogol yn y rhanbarth.

Os hoffech ymuno â ni neu gynnig arwain Gwynos Heddwch, yna cysylltwch ag: roberts@cymorth-cristnogol.org er mwyn derbyn y ddolen i ymuno.

Beth am ymuno â ni yn ein gwynnos nesaf y Nadolig hwn i ddangos cariad a cheisio llwybr heddwch ar gyfer ein brodyr a'n chwirydd lle mae gwrthdaro'n rhwygo bywydau?

**Nos Lun, 19 Rhagfyr 2022
8 o'r gloch
Croeso cynnes i'n plith**

Ffilmiau'r Adfent a'r Nadolig

Cyfes o bump ffilm fer fydd yn ymddangos ar Suliau'r Adfent a'r Nadolig.

Beth am:

- anfon y ddolen i ffrindiau?
- eu dangos yn eich capel?

<https://www.youtube.com/playlist?list=PLH4JpblhvRT7-6jjRoVYBPnU-QjJTopd3>

Ffilmiau EBC eraill ar gyfer y Nadolig:

<https://www.youtube.com/playlist?list=PLH4JpblhvRT5q-Sh7dkncPZwRe78Szswt>



Parch Gwyn Rhydderch
Pennaeth Prosiectau a Chyfathrebu



Eglwys Bresbyteriaid Cymru
The Presbyterian Church of Wales

www.ebcpcw.org.uk

ADNABOD

Cymeriadau'r Hen Destament

ABRAHAM

Cyfes o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

11 Anawsterau Cyfoeth

Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, Pennod 7, t. 56

Darllen: Genesis 13:1-7

Yn dilyn cyfnod yn yr Aifft, mae pennod 13 yn disgrifio Abraham a'i deulu yn dychwelyd, yn gyntaf i ardal y Negef, yn ne gwlad yr addewid, ac yna i Fethel. Fel yn achos holl fywyd Abraham, mae'r bennod hon am osod allan yr amrywiaeth ymateb sy'n ei nodweddu. Os oedd wedi anghredu Duw drwy fynd i'r Aifft a dweud celwydd am ei wraig, yn y bennod yma mae'n credu. Rydym yn cael esiampl o'i barodrwydd i ymddiried yn Nuw yn hytrach na cheisio'i ddiogelu ei hun.

Yn adnod 9 mae'n barod i ganiatáu i Lot gael y dewis gorau o'r tir i arbed cynnen, er y byddai hyn yn golygu ei fod ef ei hun ar ei golled. Os ystyriaeth am ei les economaidd barodd iddo fynd i'r Aifft, wedi dod yn ôl mae'n ddibris o'i les economaidd gan ymddiried y byddai addewid Duw yn ei ddiogelu. Fel y mae pethau'n troi allan, cawn weld na fu hyn yn anfantais o gwbl iddo, gan fod adnodau 14-17 yn tystio i addewid bellach a llawnach gan yr Arglwydd. Os oedd addewid am wlad ac am blant cynt, bellach bydd yr 'holl dir' yn eiddo iddo a bydd ei 'had fel llwch y ddaear; os dichon neb rifo llwch y ddaear, yna fe rifir dy had di'.

Gyda hyn mewn golwg, tebyg ei bod yn briodol inni roi ychydig o ystyriaeth i'r berthynas rhwng bendith a chyfoeth yn Genesis yn arbennig, ac yn y Beibl yn gyffredinol. Mae'n siŵr eich bod wedi clywed am 'efengyl iechyd a chyfoeth' (*health and wealth gospel*), neu wedi gweld cyfeiriadau ati. Er bod esiamplau amlwg ar y teledu ar rai o'r sianeli sy'n cael eu ffrydio o'r Unol Daleithiau, mae yna awgrymiadau clir o'r math hwn o syniad yng nghefn meddwl llawer ohonom. Yn fras, mae'r ddadl yn awgrymu: os byddwn ni'n ffyddlon

i Dduw, yn dilyn Iesu yn gydwybodol, yna fe ddylem ddisgwyl y bydd bendithion materol, pethau fel arian ac iechyd, yn canlyn hynny.

Un o'r pethau mwyaf diddorol wrth wyllo Cwpan y Byd dros y dyddiau diwethaf yw'r lluniau o'r dorf pan mae'r tim yn chwarae. Tybed ydych chi sylwi cymaint o luniau sydd yna o 'ddwy law yn erfyn'? Rhaid bod y bobl yma, beth bynnag eu crefydd a hyd yn oed os nad oes ganddynt grefydd o gwbl, yn gweddio am lwyddiant, yn gweddio y bydd pethau'n troi allan o blaid eu gwlad. Yr anhawster amlwg yw fod cefnogwyr y ddau dîm yn gwneud hynny.

Er mai esiampl ddigon gwamal yw hon, eto, faint ohonom ni sy'n rhyw feddwl, beth bynnag am ein cerddeddiad ysbrydol o ddydd i ddydd, fod bendithion materol yn rhyw ffynnon y medrwn ei hagor? A beth wedyn? Mae yna gerdded ffyddlon yn achos rhai, cerddeddiad anghyson yn hanes eraill; ac eto, does dim gwarant o 'lwyddiant' materol. Yn wir, byddwn yn darganfod, fel yn achos awdur Llyfr y Pregethwr: 'Y mae'r doeth â'i lygaid yn ei ben, ond y mae'r ffôl yn rhodio yn y tywyllwch; eto canfûm mai'r un peth yw tynged y ddau' (2:14). 'Unwaith eto, dyma a sylwais dan yr haul: nid y cyflym sy'n ennill y ras, ac nid y cryf sy'n ennill y rhyfel; nid y doethion sy'n cael bwyd, nid y deallus sy'n cael cyfoeth, ac nid y rhai gwybodus sy'n cael ffafr. Hap a damwain sy'n digwydd iddynt i gyd.' (9:11)

Ond mae yna gysylltiad rhwng bendith Duw ac elw materol yn Genesis. Sylwch, er enghraifft, ar dystiolaeth gwas Abraham yn 24:35, neu ar lwyddiant Isaac yn 26:12-13. Mae cyfoeth eithriadol yn cael ei roi i'r patriarchiaid, ac mae'n amlwg nad oedd Abraham yn dlawd yn faterol fel un oedd dan fendith Duw. Gyda llaw, o ran tlodi, mae'n bwysig cadw mewn cof na ddylai neb o bobl Dduw fod mewn tlodi eithriadol, gan mai cyfrifoldeb y gweddill yw sicrhau eu buddiannau materol. Mae hon yn thema barhaus drwy'r Beibl, ac yn cael ei chrynhoi yn Deuteronomium 15:4: 'Ddylai neb fod

mewn angen yn eich plith chi'. Mi fydd yna bobl 'gyfoethog' yn yr Eglwys yn wastad ond, fel Solomon, byddant yn cydnabod Duw am ei ddaioni drwy fod yn hael: 'Oherwydd pwy wyf fi a'm pobl i fedru rhoi o'n gwirfodd fel hyn? Canys oddi wrthyt ti y daw popeth, ac o'th eiddo dy hun y rhesom iti.' (1 Cronicle 29:14)

Wrth ystyried y cysylltiad rhwng bendith a chyfoeth materol yn Genesis, mae'r esboniwr Derek Kidner yn nodi: 'Mae bendithio'r patriarchiaid mewn modd eithriadol efallai'n gysgod o'r fendith gyffredinol sy'n cael ei haddo iddynt yn y diwedd. Wrth ystyried y felltith sydd wedi ei hamlygu rhwng penodau 3 ac 11, mae'r addewid a'r bendithio hyn yn rhag-weld y dydd pan fydd y felltith yn cael ei chodi oddi arnom, pan fydd y cwmp yn cael ei ddad-wneud.'

O ran rhyw fath o reol felly, mae'n amlwg fod yr addewidion mawr iawn a gwerthfawr sy'n cael eu rhoi i'r patriarchiaid yn dod gyda bendithion amlwg. I ni, y mae pob bendith ysbrydol yn eiddo inni yn awr yng Nghrist, ac y mae ei dlodi Ef wedi ein cyfoethogi ni'r tu hwnt i bob mesur. Fel y nodais, bydd amlygiad o'r cyfoeth materol hwn ym mywyd yr Eglwys i bwrpas gofalu ac elusen, fel yn Iago 2:15-16 ac 1 Ioan 3:17. Ond ni fydd iechyd a chyfoeth yn cael ei sylweddoli nes bydd popeth yn cael ei wneud o'r newydd yng nghreadigaeth newydd Iesu (Datguddiad 7:15-17).

- Pa mor barod fyddwch chi i gysylltu iechyd a chyfoeth materol â 'ffyddlondeb' ysbrydol? Darllenwch a thrafodwch eiriau Iesu yn Ioan 9:1-3.
- Mae haelioni yn nodweddu bywyd yr Eglwys Fore, fel y gwelwn yn Actau 2:44-5. Pa ffyrdd y dylech chi fel unigolyn ac y dylai eich eglwys eu defnyddio er sicrhau nad oes neb mewn angen?
- Darllenwch emyn 313 yn *Caneuon Ffydd*. Sut y dylai gwybod ble mae'r 'cyfoeth gorau' effeithio ar ein hagwedd ni at bob cyfoeth arall?

S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
Sul, 11 Rhagfyr

Dim rhaglen

BBC | radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 11 Rhagfyr, am 7:30yb a 4:30yp

Bydd Elin Manahan Thomas yn bwrw golwg ar rai o'n carolau mwyaf poblogaidd sy'n seiliedig ar alawon traddodiadol

Sul, 11 Rhagfyr, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Cadi Gwyn, Caernarfon




Y Silff Lyfrau



Darllen Paul mewn ffyrdd creadigol

Yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif ychwanegodd yr enwog Ddr Albert Schweitzer ei gefnogaeth i'r ysgolheigion Almaenig hynny oedd yn datgan nad yr athrawiaeth am gyfiawnhad drwy ffydd oedd craidd yr efengyl a gyhoeddai'r Apostol Paul. Nid hi felly oedd y sylfaen athrawiaethol i'r Diwygiad Protestannaidd fel yr oedd Martin Luther wedi haeru. Yn wir, honnai Schweitzer mai dysgeidiaeth ymylol ydoedd na chyffyrddai â nifer o faterion oedd yn ganolog i'r ffydd Gristnogol, megis arwyddocâd y sacramentau a rhodd yr Ysbryd Glân. Haerai ef mai'r angen am berthynas gyfriniol â Christ oedd hanfod dysgeidiaeth Paul, a bod hynny wedi'i fynegi'n arbennig yn yr ymadrodd 'bod yng Nghrist', neu rai cyfatebol, sy'n digwydd yn aml yn ei lythyrau.




Llun: Albert Schweitzer (Bundesarchiv, Bild 183-D0116-0041-019 / Unknown / CC-BY-SA 3.0) / commons.wikimedia.org

Yn ddiweddarach yn y ganrif dilynodd yr ysgolhaig nodedig o Gymro W. D. Davies yr un trywydd yn ei gyfrol orchestol, *Paul and Rabbinic Judaism*.

Ysgolhaig sydd, yn fy marn i, wedi llwyddo i greu pontydd rhwng y safbwyntiau hyn, sydd wedi tueddu i begynnu'r ddau bwyslais hyn mewn trafodaethau am

ddysgeidiaeth Paul, yw Jonathan A. Linebaugh. Bu ef yn athro ym Mhrifysgol Caergrawnt am nifer o flynyddoedd, ond bellach mae wedi dychwelyd i'w famwlad, sef UDA, i arwain astudiaethau yn y traddodiad esgobaethol yn Ysgol Ddiwinyddol Beeson, Alabama. Yn ddiweddar ymddangosodd casgliad o ddwsin o'i draethodau sy'n ein hannog i ddarllen Paul mewn ffyrdd mwy creadigol. Ei deitl yw *The Word of the Cross: Reading Paul* (Grand Rapids, MI: Eerdmans, 2022; 978-0-8028-8167-0; \$36.99; xxiii + 268; cc).



Ynddynt rhydd lawer o sylw i drafodaethau Luther ar yr Epistolau at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid yn arbennig. Yn wir, mae ei ddealltwriaeth o deithi meddwl y diwygiwr mawr yn eithriadol dreiddgar a dadlennol. Yn gynnar yn ei bererindod ysbrydol achosai'r cysyniad o gyfiawnder Duw arswyd i Luther cyn iddo ddod i sylweddoli mai 'yn yr Efengyl am ei Fab y datguddir cyfiawnder Duw' (Rhufeiniaid 1.3 a 17). Fe'i diffinnir ymhellach yn Rhufeiniaid 3.22 yn 'gyfiawnder sydd o Dduw trwy ffydd yn Iesu Grist i bawb sy'n credu'. Drwy Grist a'i groes yn unig y cyfiawneir pechaduriaid. Testun canolog a gaiff gryn sylw yn y gyfrol hon yw datganiad

Paul yn Galatiaid 2.20: 'Yr wyf wedi fy nghroeshoelio gyda Christ; a mwyach, nid myfi sy'n byw, ond Crist sy'n byw yn of fi'. Neilltuir pennod yn y gyfrol i archwilio dealltwriaeth Luther o'r geiriau hyn a thrwy hynny canfyddwn mai cyflenwol yn hytrach na chroes i'w gilydd yw cyfiawnhad a bod yng Nghrist er mwyn mynegi craidd yr efengyl Baulaidd.

Mae Linebaugh hefyd yn tynnu sylw cyson at yr hyn a eilw yn 'Ramadeg Gras', sef ymadrodd a fenthycodd oddi wrth athronydd Almaenig o'r ddeunawfed ganrif, J. G. Hamann, a ddylanwadodd yn ogystal ar ei ddull o esbonio'r ysgrythur. Canfyddir patrwm a ddefnyddiai'r apostol wrth iddo roi mynegiant i'r efengyl. Dilyna'r ffurf wrthgyferbyniol hon: 'nid, ond', neu'n llawnach: 'nid drwy weithredoedd y gyfraith, ond drwy ffydd yng Nghrist'. Canfyddir enghreifftiau eraill megis yr hyn a geir ar ddechrau'r Llythyr at y Galatiaid: 'Paul, apostol - nid o benodiad dynol, na chwaith trwy awdurdod neb dynol, ond trwy awdurdod Iesu Grist a Duw Dad' (1.1), a'r gwrthgyferbyniad yn nes ymlaen yn yr un llythyr rhwng 'Efengyl Crist' ac 'efengyl arall'. Ym mhennod olaf y gyfrol olrheindir taith ddiwinyddol Luther o ran y berthynas rhwng y gyfraith a'r efengyl yn y Galatiaid: yn y diwedd daeth i'r casgliad mai 'un peth yw'r gyfraith a rhywbeth arall yw'r efengyl'.

Yn ogystal â Luther o gyfnod y Diwygiad Protestannaidd, neilltuir pennod i drafod diwinyddiaeth Thomas Cranmer. Yn wir, amlygir yn y gyfrol hon rychwant eang o ddiwylliant ar draws y canrifoedd a gwelir hoffter yr awdur o farddoniaeth yn ymestyn o George Herbert i W. H. Auden a hyd yn oed Bob Dylan. Mae'n gyfrol gyfoethog yn wir, gyda phob pennod wedi'i saernio'n ofalus; mae'n hawlio aml i ddarlleniad pwyllog a myfyrgar, a chaiff y darllenydd fudd mawr o wneud hynny a'i arwain i ystyried calon athrawiaethau Paul am drefn yr achub a lle canolog Iesu Grist ynddi.

John Tudno Williams

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Adfent 3 – Ai ti yw'r hwn sydd i ddod?

Darlleniad: Salm 146:5–10

Gweddi

Dduw Dad, canfyddwn eto heddiw fod ein hapusrwydd pennaf a'n gobaith dyfnaf yn deillio ohonot ti. Datguddiaist drwy fawl dy bobl ogoniant dy frenhiniaeth a natur dy gymeriad cyfiawn, ffyddlon a chariadus. Drwy Iesu Grist, caniatâ i ninnau ymuno ym moliant dy bobl. Llanw ni o'r newydd drwy dy Ysbryd Glân â hyder gobaith. Amen.

Emyn 288 – 'O am dafodau fil mewn hwy!

Darlleniad: Mathew 11:2–11 Sgandal

Nid sibrydiad a glywyd ym mhalasau moethus ei ddydd pan lefarodd Ioan Fedyddiwr. Nid brwynen ond gŵr cadarn ydoedd, un oedd yn broffwyd mwy nag Elias hyd yn oed. Ioan oedd rhagflaenydd y Meseia ei hun (adn. 1) a'i lais ef a glywyd yn yr anialwch yn paratoi'r ffordd ar ei gyfer.

Wedi oes o baratoi ar gyfer ei weinidogaeth a misoedd caled yn galw ar i'w bobl edifarhau, dechreuodd Ioan simsanu. Er iddo rybuddio'i genhedlaeth fod un cryfach nag ef ar fin ymddangos, un a fyddai'n bedyddio â'r Ysbryd Glân, nid oedd y tyrfaoedd wedi edifarhau ac ni chroesawyd ei neges gan arweinwyr ei ddydd. Bellach roedd Ioan yn y carchar.

Dyheai Ioan am wybod nad oedd wedi twyllo'i hun. Wedi'r cyfan, o'r hyn a glywsai, roedd Iesu wedi croesawu pechaduriaid. Nid oedd wedi dod mewn barn i wahanu'r us oddi wrth y grawn, i gondemnio â than anniffoddadwy (Mathew 4:3:1–12).

Yn rhan gyntaf ei ateb gwahoddod Iesu ddisgyblion Ioan i ddychwelyd ac adrodd beth yr oeddent wedi ei glywed a'i weld (adn. 4–5). Dod i gyflawni'r ysgrythur a wnaeth Iesu, nid dod i gyflawni gobeithion anghyflawn unrhyw un arall!

Yn ail ran ei ateb cyhoeddod Iesu air o gysur ac anogaeth i Ioan: 'Gwyn ei fyd y sawl na fydd yn cwmpo o'm hachos i' (adn. 6). Rhaff ar draws llwybr, rhwystr ar y ffordd, rhywbeth i faglu drosto oedd y *scandalisthe*. Gwyn ei fyd y sawl nad ydynt yn cael eu tramgwyddo gan *sgandal* presenoldeb na gweithgarwch Iesu Grist.

Emyn 702 – 'Arglwydd, arwain drwy'r anialwch'

Darlleniad: Eiseia 35:1–10 Gobaith rhyfeddol

Tybed a luniwyd geiriau mor swynol, mor obeithiol, mor hardd â geiriau Eiseia yn y broffwydoliaeth hon? Pan edrychwn ar gyd-destun yr adran, gwelwn fod Eiseia (yn y bennod flaenorol) yn llawn o addewidion difrifol am farn Duw ar y cenedloedd a fygythiai Jwda. Roedd Edom yn rheng flaen y gelynydd oedd dan gondemniad y proffwyd.

Ond yn ein darlleniad heddiw fe welwn fod Eiseia'n troi, yng nghanol ei ddisgwyliad am farn Duw, i ryfeddu at ddaioni Duw tuag at ei bobl.

Byddai'n dda i ninnau heddiw glywed a glynu o'r newydd wrth ei neges obeithiol.

Clywir adleisiau am ofal gwaredigol Duw yn hanes ei bobl. Neges ydyw am Exodus newydd drwy ymweliad Duw, am fywyd mewn anialwch, am harddwch mewn sychdir, am ganeuon o fawl a gorfoledd llawen mewn amgylchiadau llai na ffafriol.

Harddwch

Trwy addewid Duw, câi llygaid y rhai oedd wedi cynefino â chrastir undonog eu rheibio gan harddwch annisgwyl ei ras, gan saffrwn, gan dyfiant ffyniannus (Lebanon, Salm 104:16), gan dlwyni rhosyn Saron (Caniad Solomon 2:1), a chan urddas tebyg i urddas arhosol mynydd Carmel. Yn wir, byddai'r ysblander a fyddai'n rheibio'i synhwyrau'n brofiad o 'weld' gogoniant a mawrhydi Duw (adn. 1–3).

Cyflwr trist

Darluniadol yw'r cyfeiriadau at 'dirwedd' sych a hesb sy'n cael ei hadnewyddu gan ymweliad ac addewidion yr Arglwydd. Am weithgarwch ym mywydau ac yng nghalonau pobl y sonia Eiseia.

Roedd anobaith wedi llethu pobl yr Arglwydd. Nid oedd y 'dwylo' a fwriadwyd i weithio yn abl mwyach i barhau yn eu gwaith. Fe'u llethwyd gan *lesgedd*. Nid oedd y rhai a blygai lin i weddio ac i geisio'r Arglwydd yn ddim ond *gweinion*. Yn wir, ni allent gario baich eu galwad mwyach. Yn lle hyder, goddiweddwyd ei bobl gan ddiffyg hyder ac ofn a phryder.

Felly daeth gair yr Arglwydd i ysgogi ac adfywio'i bobl. Trwy gyhoeddi ei air, ac wrth i'w bobl glywed ei addewidion, fe ddeuai nerth, cryfder, hyder a chadernid i lyncu'r rhwystrau a'r ofnau.

Gobaith ar ei ymweliad

Cyhoedda Duw wrth ei bobl, drwy'r proffwyd, ei fod ar waith yn eu plith. Byddai, fe fyddai pobl yn cael eu cyffwrdd a'u trawsnewid gan ei ymweliad. Oherwydd ei ras tuag atynt fe gâi'r dall weld, y byddar glywed, y cloff lamu a'r mud ganu. Byddai bendithion ei ymweliad yn llifo fel afonydd mewn sychdir, fel llynnoedd mewn diffeithdiroedd anial. Cymaint fyddai'r fendith fel y byddai brwyn yn tyfu mewn anialdir, a ffynhonnau bywiol yn ymddangos yn fendith i dorri syched y rhai sychedig.

Priffordd gras

Nid yw priffyrdd bob amser yn fannau diogel, hyd yn oed i yrwyr profiadol a gofalus. Ond y mae'r 'ffordd newydd' wnaed gan Iesu Grist' yn gwbl ddiogel. Priffordd sanctaidd ydyw, wedi ei neilltuo i weithgarwch yr Arglwydd a'i bobl. Ffordd ydyw sy'n caniatáu i'r 'rhai a ryddhawyd' rodio arni. Ffordd a adeiladwyd i 'waredigion yr Arglwydd' deithio ar hyd-ddi wrth iddynt 'ddychwelyd' adref. Ni rwystrir dychweledigion yr Arglwydd gan amgylchiadau peryglus. Gosodir 'llawenydd tragwyddol' a dyheadau tragwyddol yn eu calonau i'w tywys ar hyd llwybr union eu pererindod. Yn gwmni i'w hebrwng yn ddiogel i ben eu taith bydd 'llawenydd a gorfoledd'. Pan dewir mawl yr eglwys collir hyder a nerth. Pan gaiff yr eglwys ei llenwi o'r newydd gan ryfeddod at addewidion sicr yr Arglwydd, caiff cân o fawl ei ledio yn ein calonau drwy'r Ysbryd Glân. Yng nghanol siomedigaethau a blinderau lu bydd y gân newydd yn peri i ofid a griddfan gilio o'r llwybr wrth i ni rodio ar ein taith tuag at Seion ac at bresenoldeb digwml yr Arglwydd.

Ar hyd y canrifoedd adroddodd cenedlaethau am ryfeddod gwrth gras yn eu calonau. Cawsant 'weld' ei ddaioni. Dechreusant gerdded ar hyd priffordd yr Arglwydd gyda cân newydd yn eu calonau a than nefol o'u mewn. Cân ydyw na chaiff ei diffodd byth. A hyd yn oed heddiw, yn ein Cymru seciwlar a chrin, mae caneuon mawl yn parhau i gael eu tanio yng nghaneuon a mawl ei waredigion.

Gweddi

Arglwydd, a wnei di drugarhau wrthym ni ac wrth ein gwlad. Pâr i'r dall weld, i'r cloff rodio'n rhydd, i'r mud ganu. Arglwydd, ymwêl â ni. Er mwyn dy enw, trugarha. Amen.

Emyn 454: 'Wele fi yn dyfod'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru